

cyngor doeth am

GYLLID I FYFYRWYR

Cyllid i fyfyrwr – myfyrwr llawn amser sy'n parhau 2017/18

www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk



cyllid myfyrwr cymru
student finance wales



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

cyllid myfyrwyr cymru student finance wales

Beth yw Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae Cyllid Myfyrwyr Cymru yn wasanaeth a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Rydym yn darparu cymorth ariannol ar ran Llywodraeth Cymru i fyfyrwyr o Gymru sy'n cychwyn ar gwrs addysg uwch yn y DU.


Gan ddibynnu ar eich amgylchiadau, eich cwrs a ble y byddwch yn astudio, efallai y gallech gael ystod o gymorth a chefnogaeth ariannol. Ac ni fydd yn rhaid i'r rhan fwyaf o fyfyrwyr dalu unrhyw ffioedd dysgu ymlaen llaw!


Gallwch gael grantiau a bwrsariaethau (na fydd yn rhaid i chi eu talu yn ôl) a benthyciadau (y bydd yn rhaid i chi eu talu yn ôl). Mae yna help ychwanegol hefyd ar gyfer y rhai gydag amgylchiadau arbennig, er enghraifft, os oes gennych blant neu oedolion dibynnol, neu anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol megis dyslecsia neu ddyspracsia.


Am ragor o offer defnyddiol a chanllawiau neu i ymgeisio ewch i www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk


Gallwch hefyd weld y newyddion diweddaraf ar Facebook, Twitter ac YouTube:

 [facebook.com/SFWales](https://www.facebook.com/SFWales)

 twitter.com/SF_Wales

 [youtube.com/SFWFILM](https://www.youtube.com/SFWFILM)





Adran 1

Pryd a sut allaf fi ailymgeisio?

Tudalen 4

Adran 2

Beth allaf fi ei gael?

Tudalen 6

Adran 3

Beth am ad-dalu?

Tudalen 16

Adran 4

Gwybodaeth ddefnyddiol a chysylltiadau

Tudalen 18



PRYD A SUT ALLAF FI AILYMGEISIO?

Dylech ailymgeisio am eich cyllid i fyfyrwyr cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor i wneud yn siŵr eich bod yn cael eich arian pan fyddwch yn dychwelyd i'ch cwrs.

Ewch ar-lein ac ailymgeisio am gyllid myfyrwyr yn www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk. Wedi i ni brosesu eich cais byddwn yn anfon eich llythyr Hawl i Gyllid i Fyfyrwyr atoch ynghyd â ffurflen ddatganiad.

Os ydych yn fyfyrwr sy'n parhau sy'n gwneud cais am gyllid myfyrwyr am y tro cyntaf, gallwch wneud hyn ar-lein yn **www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk** cyn gynted ag y bydd y gwasanaeth ymgeisio yn agor. Cyn i chi ddechrau ar eich cais ar-lein, gwnewch yn siŵr bod gennych y canlynol wrth law:


- eich pasbort
- manylion eich prifysgol a'ch cwrs
- eich manylion banc
- eich rhif Yswiriant Gwladol

Os ydych yn ymgeisio am gyllid sy'n ddibynnol ar incwm eich aelwyd, bydd raid i'ch rhieni neu bartner roi eu manylion cyswllt, rhif Yswiriant Gwladol a gwybodaeth am incwm yr aelwyd.

Cofiwch gofrestru yn eich prifysgol neu goleg. Ni allwn dalu i chi nes gwnewch chi hynny!

Pan fyddwch yn derbyn eich ffurflen ddatganiad llofnodwch hi a'i dychwelyd atom cyn gynted â phosibl.

Os na wnewch chi hynny, ni fyddwn yn gallu eich talu.



BETH ALLAF FI EI GAEL?

Mae llawer iawn o help ar gael i chi yn ystod eich astudiaethau. Tra byddwch yn y brifysgol neu'r coleg bydd gennych ddwy brif gost – ffioedd dysgu a chostau byw. Y prif fathau o gyllid i fyfyrwyr i helpu gyda'r rhain yw Benthyciadau Ffioedd Dysgu a Benthyciadau Cynhaliath (y bydd yn rhaid eu talu yn ôl) a grantiau a bwrsariaethau (nad oes yn rhaid eu talu yn ôl).

Mae'r tudalennau nesaf yn dangos beth allech chi ei gael ac ar gyfer beth.



Benthyciad Ffioedd Dysgu

Ar gyfer beth?	Mae'n helpu i dalu'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.
Faint allaf fi ei gael?	Hyd at £4,296
A oes raid i mi ei dalu yn ôl?	<p>Oes. Os dechreuoch ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012, ni fyddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciad nes byddwch wedi gadael eich cwrs a bod eich incwm yn fwy na £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn.</p> <p>Os dechreuoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2012, ni fydd raid i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciad nes byddwch wedi gadael eich cwrs a bod eich incwm yn fwy na £336 yr wythnos, £1,457 y mis neu £17,495 y flwyddyn.</p>
Rhywbeth arall?	<p>Gall ffioedd dysgu amrywio rhwng gwahanol brifysgolion a cholegau, a rhwng gwahanol gyrsiau yn yr un brifysgol neu goleg. Gwiriwch gyda'ch prifysgol neu goleg i gadarnhau pa ffioedd dysgu a godir amoch cyn i chi ymgeisio.</p> <p>Os yw'ch prifysgol neu goleg wedi ei ariannu yn breifat ac yn y Deyrnas Unedig ond yn rhedeg cyrsiau unigol sy'n cael cyllid cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru, gallech gael benthyciad o hyd at £6,165 y flwyddyn i'ch helpu gyda ffioedd dysgu. Efallai y bydd rhai cyrsiau mewn prifysgolion a cholegau preifat yn costio mwy na hyn, ond bydd angen i chi dalu'r gwahaniaeth rhwng costau dysgu'r cwrs a faint o Fenthyciad Ffioedd Dysgu a dderbyniwch.</p> <p>Rydym yn talu eich Benthyciad Ffioedd Dysgu yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg ar eich rhan. Petaech yn gorffen, gadael neu ohirio eich cwrs, bydd raid i chi ad-dalu unrhyw ffioedd dysgu yr ydym wedi eu talu i'ch prifysgol neu goleg.</p>

Grant Ffioedd

Ar gyfer beth?	Mae'n helpu i dalu eich ffioedd dysgu. Mae'r Grant Ffioedd yn talu'r gwahaniaeth rhwng yr uchafswm Benthyciad Ffioedd Dysgu sydd ar gael a'r ffioedd dysgu a godir gan eich prifysgol neu goleg.
Faint allaf fi ei gael?	Hyd at £4,954
A oes raid i mi ei dalu yn ôl?	Na.
Rhywbeth arall?	Dim ond os dechreuoch ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012 y mae'r Grant Ffioedd ar gael. Rydym yn talu eich Grant Ffioedd yn uniongyrchol i'ch prifysgol neu goleg ar eich rhan. Ni allwch gael Grant Ffioedd os byddwch yn astudio mewn prifysgol neu goleg preifat.


Pryd fydd eich Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd yn cael eu talu:

Pryd y telir eich prifysgol neu goleg	Faint o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu a Grant Ffioedd a delir i'ch prifysgol neu goleg
Ar ddechrau tymor 1	25% o'r ffioedd dysgu
Ar ddechrau tymor 2	25% o'r ffioedd dysgu
Ar ddechrau tymor 3	50% o'r ffioedd dysgu



Benthyciad Cynhaliaeth


Ar gyfer beth?	Mae'n helpu gyda chostau byw fel bwyd, llyfrau, rhent a chostau eraill tra byddwch yn astudio.								
How much can I get?	<p>Bydd faint fyddwch yn ei gael yn dibynnu ar incwm eich aelwyd a ble byddwch yn astudio.</p> <table border="1"> <tr> <td>Byw gyda rhieni</td> <td>Hyd at £5,358</td> </tr> <tr> <td>Astudio yn Llundain a ddim yn byw gyda rhieni</td> <td>Hyd at £9,697</td> </tr> <tr> <td>Yn astudio yn rhywle arall a ddim yn byw gyda rhieni</td> <td>Hyd at £6,922</td> </tr> <tr> <td>Yn byw ac astudio dramor am un tymor o leiaf</td> <td>Hyd at £8,253</td> </tr> </table>	Byw gyda rhieni	Hyd at £5,358	Astudio yn Llundain a ddim yn byw gyda rhieni	Hyd at £9,697	Yn astudio yn rhywle arall a ddim yn byw gyda rhieni	Hyd at £6,922	Yn byw ac astudio dramor am un tymor o leiaf	Hyd at £8,253
Byw gyda rhieni	Hyd at £5,358								
Astudio yn Llundain a ddim yn byw gyda rhieni	Hyd at £9,697								
Yn astudio yn rhywle arall a ddim yn byw gyda rhieni	Hyd at £6,922								
Yn byw ac astudio dramor am un tymor o leiaf	Hyd at £8,253								
A oes raid i mi ei dalu yn ôl?	<p>Oes. Os dechreuoch ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012, ni fyddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciad nes byddwch wedi gadael eich prifysgol neu goleg a bod eich incwm yn fwy na £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn.</p> <p>Os dechreuoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2012, ni fydd raid i chi ddechrau ad-dalu nes byddwch wedi gadael eich prifysgol neu goleg a bod eich incwm yn fwy na £336 yr wythnos, £1,457 y mis neu £17,495 y flwyddyn.</p>								
Rhywbeth arall?	Byddwn yn talu eich Benthyciad Cynhaliaeth yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, mewn tri rhandaliad fel arfer, un ar ddechrau pob tymor. Rhaid i chi fod dan 60 oed ar ddechrau eich cwrs i gael Benthyciad Cynhaliaeth. Byddwn yn gostwng swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gallwch ei gael o 50c ar gyfer pob £1 o Grant Dysgu Llywodraeth Cymru y derbyniwch, hyd at uchafswm lleihad o £2,580.								



Grant Dysgu Llywodraeth Cymru

Ar gyfer beth?	Mae'n helpu gyda chostau byw fel bwyd, llyfrau, rhent a chostau eraill tra byddwch yn astudio.								
Faint allaf fi ei gael?	<p>Gallwch gael hyd at £5,161 gan ddibynnu ar incwm eich aelwyd a phryd y dechreuoch ar eich cwrs. Mae'r tabl isod yn rhoi syniad bras o'r hyn y gallwch ei gael.</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Incwm yr aelwyd</th> <th>Faint?</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>£18,370 neu lai</td> <td>Grant llawn o £5,161</td> </tr> <tr> <td>Rhwng £18,370 a £50,020</td> <td>Grant rhannol</td> </tr> <tr> <td>Mwy na £50,020</td> <td>Dim grant</td> </tr> </tbody> </table> <p>Os dechreuoch chi eich cwrs yn 2011/12, gallech gael hyd at £5,780.</p>	Incwm yr aelwyd	Faint?	£18,370 neu lai	Grant llawn o £5,161	Rhwng £18,370 a £50,020	Grant rhannol	Mwy na £50,020	Dim grant
Incwm yr aelwyd	Faint?								
£18,370 neu lai	Grant llawn o £5,161								
Rhwng £18,370 a £50,020	Grant rhannol								
Mwy na £50,020	Dim grant								
A oes raid i mi ei dalu yn ôl?	Na, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar.								
Rhywbeth arall?	<p>Byddwn fel arfer yn talu eich Grant Dysgu Llywodraeth Cymru mewn tri rhandaliad; un ar ddechrau pob tymor, gydag unrhyw Fenthyciad Cynhaliath. Os byddwch yn cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru, byddwn yn lleihau faint o Fenthyciad Cynhaliath y byddwch yn ei gael.</p> <p>Gallwch gael rhagor o wybodaeth am sut mae incwm eich aelwyd yn effeithio ar eich hawl yn www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk</p>								





Grant Cymorth Arbennig

Mae Grant Cymorth Arbennig yn cymryd lle Grant Dysgu Llywodraeth Cymru i rai myfyrwyr mewn amgylchiadau penodol.

Ar gyfer beth?

Mae'n helpu gyda chostau ychwanegol sy'n ymwneud â llyfrau, offer, teithio neu ofal plant.

Gallwch gael Grant Cymorth Arbennig:

- os ydych yn riant sengl neu riant maeth gyda phlentyn neu unigolyn ifanc dan 20 sydd mewn addysg llawn amser dan lefel addysg uwch neu ar gwrs hyfforddi cymeradwy;
- os ydych yn unig riant (rhiant sengl) gyda phlentyn neu unigolyn ifanc dan 20 sydd mewn addysg llawn amser yn is na lefel addysg uwch neu ar gwrs hyfforddi cymeradwy;
- os oes gennych anabledd ac rydych yn gymwys i gael y Premiwm Anabledd neu Breimiwm Anabledd Difrifol;
- os ydych yn fyddar ac yn gymwys i gael Lwfansau Myfyrwyr Anabl;
- os bydd meddyg wedi cadarnhau nad ydych wedi gallu gweithio am gyfnod parhaus o 28 wythnos neu fwy;
- os oes gennych anabledd ac rydych yn gymwys i gael y Lwfans Gwaith a Chymorth cysylltiedig ag incwm;
- os ydych yn aros i fynd yn ôl ar gwrs ar ôl cymryd seibiant y cytunwyd arno oddi ar y cwrs oherwydd salwch neu gyfrifoldeb i ofalu am rywun sydd bellach wedi dod i ben;
- os ydych yn 60 oed neu hŷn;
- os ydych yn medru cael budd-dal tai neu elfen tai'r Credyd Cynhwysol;
- os ydych yn medru cael Taliad Annibyniaeth Bersonol;
- os ydych yn medru cael Lwfans Byw i'r Anabl; neu
- os ydych yn medru cael Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog.

Parhad Grant Cymorth Arbennig

Faint allaf fi ei gael?	Gallwch gael hyd at £5,161 gan ddibynnu ar incwm eich aelwyd.
A oes raid i mi ei dalu yn ôl?	Na, oni bai eich bod yn gadael eich cwrs yn gynnar.
Rhywbeth arall?	<p>Os byddwch yn gallu cael Grant Cymorth Arbennig, ni fyddwch yn gallu cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru hefyd. Ond, ni fydd yn effeithio ar swm y Benthyciad Cynhaliaeth y gallwch ei gael.</p> <p>Rydym yn penderfynu ar yr hawl i gael Grant Cymorth Arbennig yn yr un ffordd â Grant Dysgu Llywodraeth Cymru. Ni fydd Canolfan Byd Gwaith ac adran fudd-daliadau eich awdurdod lleol yn ystyried Grant Cymorth Arbennig wrth gyfrifo eich hawl i dderbyn budd-daliadau'r wladwriaeth.</p> <p>Os nad ydych yn siŵr a ddylech ymgeisio am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru yntau Grant Cymorth Arbennig, cysylltwch â ni am gyngor neu siaradwch â chyngorydd myfyrwyr yn eich prifysgol neu goleg.</p>



Cymorth Ychwanegol

Beth allaf fi ei gael?	Ar gyfer beth?	Rhagor o wybodaeth
Lwfansau Myfyrwyr Anabl	Mae'n helpu gyda chostau ychwanegol sydd gennych oherwydd eich anabledd, yn cynnwys cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol. Gall Lwfansau i Fyfirwyr Anabl helpu talu am offer arbenigol, cynorthwydd anfeddygol, costau teithio neu gostau eraill. Nid ydynt yn dibynnu ar incwm eich aelwyd. Bydd faint y byddwch yn ei gael yn dibynnu ar eich amgylchiadau.	Am ragor o wybodaeth, lawr lwythwch 'Help ychwanegol – Lwfansau Myfyrwyr Anabl' yn www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk
Grant Gofal Plant	Mae'n helpu gyda chostau gofal plant os oes gennych blant dibynnol sydd dan 15 oed ar ddechrau'r cwrs (gan gynnwys plant dibynnol a enir ar ôl i'r flwyddyn academaidd ddechrau) neu 17 oed os oes ganddynt anghenion addysgol arbennig mewn gofal plant cofrestredig neu a gymeradwywyd. Gallwch gael 85% o gostau gofal plant, hyd at uchafswm o £161.50 yr wythnos ar gyfer un plentyn neu £274.55 yr wythnos ar gyfer dau neu fwy o blant.	Am ragor o wybodaeth, lawrlwythwch y canllaw 'Help ychwanegol – Grantiau Dibynyddion yn www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk
Lwfans Dysgu Rhieni	Mae'n helpu gyda chostau yn ymwneud â'r cwrs os oes gennych blant dibynnol. Gallwch gael hyd at £1,557 y flwyddyn, gan ddibynnu ar incwm eich aelwyd.	Am ragor o wybodaeth, lawr lwythwch y canllaw 'Help ychwanegol – Grantiau Dibynyddion yn www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk
Grant Oedolion Dibynnol	Mae'n helpu gyda chostau os oes oedolyn yn dibynnu arnoch yn ariannol. Gallwch gael hyd at £2,732 y flwyddyn, gan ddibynnu ar incwm eich aelwyd.	Am ragor o wybodaeth, lawrlwythwch y canllaw 'Help ychwanegol – Grantiau Dibynyddion yn www.cyllidmyfyrwryrcymru.co.uk

Beth allaf fi ei gael?	Ar gyfer beth?	Rhagor o wybodaeth
Grant Teithio	Mae'n helpu gyda chostau teithio os byddwch yn mynd i leoliad clinigol yn y Deyrnas Unedig neu'n astudio dramor fel rhan o'ch cwrs. Bydd yn rhaid i chi dalu dalu £303 cyntaf eich costau teithio ond yn ddibynnol ar incwm eich cartref gallwch hawlio unrhyw beth fyddwch yn ei wario dros y swm hwn yn ôl.	Am ragor o wybodaeth am y Grant Teithio, gweler ein gwefan www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk
Bwrsariaethau ac ysgoloriaethau	Efallai y gallech gael bwrsariaeth neu ysgoloriaeth gan eich prifysgol neu goleg.	Gwiriwch wefan y brifysgol neu goleg am fanylion.




NEWIDIADAU YN EICH AMGYLCHIADAU

Ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd gallwch:

- fewngofnodi i'ch cyfrif cyllid i fyfyrwyr a newid eich manylion personol;
- roi gwybod i ni am unrhyw newid arall yn eich amgylchiadau; neu
- gysylltu â ni i addasu'r swm o Fenthyciad Cynhaliaeth neu Fenthyciad Ffioedd Dysgu yr ydych am eu derbyn.

Os bydd y ffi a godir arnoch yn newid cyn i chi ddechrau ar eich cwrs dylech ddweud wrthym ni am hyn yn uniongyrchol. Ond, os bydd yn newid ar ôl i'ch cwrs ddechrau, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu goleg ddweud wrthym am hyn. Yn yr un modd, os byddwch yn bwriadu newid eich cwrs, ail wneud blwyddyn, gadael addysg uwch neu ohirio eich astudiaethau ar ôl i'ch cwrs ddechrau, bydd angen i chi ofyn i'ch prifysgol neu goleg ddweud wrthym.

BETH AM AD-DALU?



Os dechreuoch ar eich cwrs ar neu ar ôl 1 Medi 2012, ni fyddwch yn dechrau ad-dalu eich benthyciad nes byddwch wedi gadael eich cwrs a bod eich incwm yn fwy na £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn.

Os dechreuoch ar eich cwrs cyn 1 Medi 2012, ni fydd raid i chi ddechrau ad-dalu eich benthyciad nes byddwch wedi gadael eich cwrs a bod eich incwm yn fwy na £336 yr wythnos, £1,457 y mis neu £17,495 y flwyddyn.

PWYNTIAU PWYSIG AM AD-DALU

- Mae eich ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm ar ôl i chi orffen astudio, nid yr hyn yr ydych wedi ei fenthycia.
- Nid yw o bwys os byddwch yn dewis cwrs sy'n costio £6,165 neu £9,250 y flwyddyn, byddwch yn dal i ad-dalu'r un swm bob mis.
- Mae eich incwm yn cynnwys eich cyflog ac unrhyw ffynonellau incwm eraill sydd gennych, er enghraifft, incwm o bensiwn neu rent.
- Bydd eich cyflogwr yn cymryd 9% o'ch incwm dros y trothwy yn awtomatig trwy system dreth y Deyrnas Unedig (Talu Wrth Ennill – PAYE). Os ydych yn hunangyflogedig byddwch yn ad-dalu trwy hunan asesiad.
- Codir llog o'r diwrnod y gwneir eich taliad cyntaf nes bydd eich benthyciad wedi ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo. Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar Fynegai Prisiau Manwerthu'r Deyrnas Unedig* (RPI), a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar eich amgylchiadau.
- Os bydd eich incwm yn newid, naill ai'n codi neu'n gostwng, bydd y swm rydych yn ad-dalu yn newid i adlewyrchu hyn. Os byddwch yn stopio gweithio, bydd eich ad-daliadau'n stopio nes i chi ddechrau gweithio eto a bod eich incwm dros y trothwy unwaith yn rhagor.
- Gallwch ad-dalu yn wirfoddol ar unrhyw adeg.
- Os ydych chi'n bwriadu byw, gweithio neu deithio dramor wedi i chi orffen neu adael eich cwrs, rhaid i chi roi gwybod i ni. Byddwch yn dal angen gwneud taliadau ar eich benthyciad, ond efallai y bydd y trothwy ad-dalu yn wahanol yn ddibynnol ar ba wlad ydych chi ynddi ar hyn o bryd.
- Bydd unrhyw fenthyciad sy'n weddill 30 mlynedd wedi'r cyfnod pan oeddech i fod i ddechrau gwneud ad-daliadau yn cael ei ganslo.

*Mae'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn fesur o chwyddiant yn y Deyrnas Unedig. Mae'n mesur newidiadau i gostau byw yn y Deyrnas Unedig.



CANSLO RHANNOL

Os byddwch chi'n cymryd Benthyciad Cynhaliaeth yn 2017/18 gallwch weld hyd at £1,500 o weddill eich benthyciad myfyriwr yn cael ei ganslo gan Lywodraeth Cymru pan fyddwch yn dechrau ad-dalu.


Mae hyn yn amodol ar gael cymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rydych yn gymwys ar gyfer canslo rhannol wedi i chi ddechrau ad-dalu naill ai'n wirfoddol neu pan fyddwch wedi gadael eich prifysgol neu goleg ac mae'ch incwm dros £21,000 y flwyddyn.

Mae swm y canslad rhannol yn ddibynnol ar faint o Fenthyciad Cynhaliaeth a fenthyciwyd pan fyddwch yn dechrau ad-dalu.

Y swm a ganslir fydd £1,500 oni bai eich bod wedi cymryd Benthyciad Cynhaliaeth llai.

Os byddwch yn benthycu llai na £1,500 bydd y diddymiad rhannol y swm sy'n dal yn ddyledus. Dim ond unwaith y cewch chi ganslo benthyciad yn rhannol.

**Angen help?**

Mae gennym adnoddau eraill defnyddiol i'ch helpu gan gynnwys:

- canllawiau cyflym ar 'Lwfansau Myfyrwyr Anabl', 'Grantiau Dibynyddion' a 'Beth, sut a phryd i ad-dalu'; a
- canllawiau manwl gan gynnwys 'Canllaw i amodau a thelerau'

Mae'r adnoddau yma ar gael i'w lawr lwytho o **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**

CYSYLLTIADAU**Cyllid Myfyrwyr Cymru**

Am ragor o wybodaeth ac i ymgeisio ewch i **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**

Gallwch hefyd ein ffonio ar **0300 200 4050** (ffôn testun: **0845 603 1693**) rhwng 8yb a 6yp dydd Llun i ddydd Gwener.

Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS)

Gallwch gael rhagor o wybodaeth o wefan yr NUS yn **www.nus.org.uk/nus-wales**

Scholarship Search UK

Mae'r wefan yma yn rhoi gwybodaeth am ffynonellau cyllid eraill i fyfyrwyr israddedig.

Y wefan yw **www.scholarship-search.org.uk**

Cymdeithas Genedlaethol Cynghorwyr Ariannol Myfyrwyr (NASMA)

Elusen yw NASMA sy'n gweithio i helpu myfyrwyr trwy roi cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth trwy fynd i **www.nasma.org.uk**



RHESTR WIRIO

Rhowch dic wrth bob cam i sicrhau bod gennych arian pan fyddwch yn dechrau ar eich cwrs.

DECHRAU

- 1** Rwyf wedi darllen trwy'r canllaw hwn a gwirio'r wybodaeth a'r canllawiau ychwanegol ar-lein yn **www.cyllidmyfyrwycymru.co.uk**
- 2** Rwyf yn gwybod sut i ailymgeisio am gyllid i fyfyrwyr ac mai 9 Mehefin 2017 yw'r dyddiad cau.
- 3** Rwyf wedi mewngofnodi i'm cyfrif cyllid i fyfyrwyr ac ailymgeisio cyn y dyddiad cau.
- 4** Rwyf wedi llofnodi a dychwelyd fy ffurflen ddatganiad.
- 5** Rwyf wedi dweud wrth Cyllid Myfyrwyr Cymru/fy mhrifysgol neu goleg os yw fy amgylchiadau wedi newid ers i mi ymgeisio ddiwethaf am gyllid myfyrwyr ac anfon tystiolaeth neu'r wybodaeth ychwanegol pe bai'n angenrheidiol.
- 6** Rwyf wedi mewngofnodi i'm cyfrif i wirio cynnydd fy nghais.
- 7** Rwyf wedi mynd â'm llythyr Hawl i Gyllid Myfyrwyr i'm prifysgol neu goleg a chofrestru.
- 8** Mae fy arian wedi ei dalu.



Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiâu o'r canllaw hwn ar-lein trwy droi at www.cyllidmyfyrwrcymru.co.uk.

Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau ar ffurf Braille, print bras neu sain trwy e-bostio eich manylion ynghyd â ffa ffurf a fformat yr hoffech at brailleandlargefonts@slc.co.uk neu gallwch ein ffonio ni ar **0141 243 3686**. Sylwer, dim ond gyda cheisiadau am ffurfiau amgen ffurflenni a chanllawiau y bydd modd i'r cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod ddelio gyda nhw.

WG30883

ISBN: 978-1-4734-8523-5

© Argraffydd y Frenhines a Rheolydd HMSO 2017.
Cynhyrchwyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr ar ran Llywodraeth Cymru.

Gellir atgynhyrchu rhannau o'r ddogfen hon i ddibenion ymchwil, addysg neu hyfforddiant anfasnachol ar yr amod y cydnabyddir y ffynhonnell. Ar gyfer unrhyw ddefnydd arall, cysylltwch â: HMSOlicensing@cabinetoffice.x.gsi.gov.uk

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer arweiniad yn unig ac nid yw'n ddatganiad o'r gyfraith.